# Taclo'r taniwr

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **60 munud +** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar pam bod tanau gwyllt yn cael eu cynnau'n fwriadol a'r canlyniadau i unigolion, cymunedau a'r amgylchedd naturiol.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw mynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, a hynny yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion, a phridd er mwyn gwella llesiant Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

### Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Y Celfyddydau Mynegiannol | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd. |

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae cwblhau'r gweithgaredd hwn yn rhoi cyfleoedd i fodloni llinynnau canlynol y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

| Dinasyddiaeth | Rhyngweithio a chydweithio | Cynhyrchu | Data a meddwl cyfrifiadurol |
|---|---|---|---|
| • Hunaniaeth, delwedd ac enw da. | • Cyfathrebu. | • Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol. | • Llythrennedd gwybodaeth a data. |
| • Ymddygiad ar-lein a bwlio ar-lein. | • Cydweithredu. | • Creu cynnwys digidol. | |
| • Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth. | • Cyfnewid a rhannu gwybodaeth. | • Gwerthuso a gwella cynnwys digidol. | |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Deall bod tanau gwyllt yn beryglus i ddiffoddwyr tân, cymunedau a bywyd gwyllt.
- Datblygu empathi tuag at y rhai sy'n cael eu heffeithio gan danau gwyllt.
- Amlinellu rhai o'r swyddi sy'n cyfrannu at adnabod a dal tanwyr bwriadol.
- Cydweithio i gynllunio a chreu arf cyfathrebu perswadiol.

## Adnoddau ac offer

- **Nodyn gwybodaeth – Ymchwilio i achosion tanau gwyllt**
- **Nodyn gwybodaeth – Tanau gwyllt**
- **Nodyn gwybodaeth – Tân**
- **Cardiau adnoddau – Scenario – Taclo'r taniwr**
- **Cardiau adnoddau – Pwy yw pwy**

## Cefndir

Mae'r weithred o gynnau tân gwyllt yn fwriadol yn anghyfreithlon, yn anghyfrifol ac yn weithred droseddol ac fe'i gelwir yn llosgi bwriadol. Gall pobl sy'n achosi tanau bwriadol wynebu dirwyon trwm a dedfryd o garchar. Mae Adran 4, Deddf Difrod Troseddol 1971 yn nodi uchafswm cosb o garchar am oes am losgi bwriadol mwy difrifol. Yn ogystal â dinistrio cynefinoedd naturiol, mae mynd i'r afael â thanau gwyllt yn galw am ddefnyddio adnoddau hanfodol, mae'n gostus iawn ac yn peryglu iechyd a bywydau pobl.

Mae tân gwyllt a ddechreuwyd yn fwriadol yn effeithio ar lawer o bobl. Yn ogystal â gadael effeithiau andwyol ar y bobl sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol yn y gymuned leol, mae llawer yn ymwneud â rheoli'r tanau gwyllt, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad. Caiff yr ystod hon o bobl a'r swyddi sy'n cael eu heffeithio eu trafod yn ein **Cardiau adnoddau – Pwy yw pwy**.

## Beth i'w wneud

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddiffinio beth yw tân gwyllt. Ydyn nhw'n gallu egluro beth sydd ei angen ar dân gwyllt er mwyn iddo gychwyn? Defnyddiwch ein **Nodyn gwybodaeth – Tanau gwyllt** a **Nodyn gwybodaeth – Tân** i lenwi unrhyw fylchau gwybodaeth. Ble gallai eich dysgwyr ddisgwyl i danau gwyllt ddigwydd? Oes unrhyw un o'r grŵp wedi gweld tân gwyllt neu ydyn nhw'n ymwybodol o unrhyw danau gwyllt hanesyddol neu leol?
2. Trafodwch y weithred droseddol o losgi bwriadol. A yw eich dysgwyr yn gwybod am unrhyw lysenwau eraill y mae unigolion sy'n cynnau tanau yn fwriadol weithiau'n cael eu galw? Mae'r enghreifftiau yn cynnwys geiriau fel 'Llosgwr' a llysenwau Saesneg fel firebug, tortsh, pyromaniac, firestarter.
3. Ydyn nhw'n gallu esbonio pam bod llosgi bwriadol yn cael ei ystyried yn drosedd? Ydyn nhw'n gallu meddwl am unrhyw resymau pam y gallai rhywun ddechrau tân gwyllt yn fwriadol? Mewn grwpiau bychain, gofynnwch i'ch dysgwyr drafod pa resymau all fod gan rywun dros gychwyn tân gwyllt yn fwriadol. Gofynnwch i bob grŵp roi adborth ar eu meddyliau a defnyddiwch y **Nodyn gwybodaeth - Ymchwilio i achosion tanau gwyllt**, i lenwi unrhyw fylchau.
4. Mewn grwpiau bychain gofynnwch i'ch dysgwyr lunio rhestr o unrhyw sefydliad neu unigolion allai fod â rhan i'w chwarae mewn atal tanau gwyllt. Pe bai achos o dân gwyllt yn digwydd, pa fath o dasgau y byddai angen iddyn nhw eu cyflawni? Sut fydden nhw'n teimlo o bosib am eu rhan mewn achos o dân gwyllt, neu eu profiad ohono?

   Gofynnwch iddyn nhw ystyried pwy allai fod yn:

   - Paratoi i warchod bywydau, eiddo, a'r amgylchedd naturiol rhag tân gwyllt.
   - Canfod ac adrodd am danau gwyllt.
   - Rheoli a diffodd y tanau gwyllt.
   - Rheoli diogelwch pobl ac eiddo yn ystod achos o dân gwyllt.
   - Ar ôl ei ddiffodd, ymchwilio i sut y dechreuodd y tân gwyllt.
   - Erlyn y sawl/rhai ddechreuodd dân gwyllt yn fwriadol.
   - Delio â chanlyniad tân gwyllt, yn achos pobl a busnesau yn yr ardal ac o ran yr amgylchedd naturiol.

5. Rhowch set o'r **Cardiau adnoddau – Pwy yw pwy** i bob grŵp. Oedd unrhyw rai o'r rolau wedi cael eu gadael oddi ar eu rhestr? A wnaethon nhw feddwl am unrhyw rolau eraill sydd heb fod yn cael eu crybwyll? Mae cyfle yn y fan hon i gael eich dysgwyr i ymchwilio'n ddwfn i rai o'r rolau a grybwyllwyd, e.e. swyddog heddlu, newyddiadurwr, neu feteorolegydd. Rhannwch eich dysgwyr yn grwpiau bychain a neilltuwch swydd benodol i bob grŵp i'w hymchwilio ac yna cyflwyno gwybodaeth i'r grŵp ehangach ar ôl cwblhau. Gallai gwybodaeth i'w hymchwil gynnwys:
   - Pa gymwysterau sy'n ofynnol er mwyn cyflogi rhywun yn y swydd?
   - Pa sgiliau fyddai eu hangen ar rywun yn y swydd hon?
   - Beth yw prif dasgau'r swydd?
   - Beth yw'r cyflog cychwynnol?
   - Beth yw rhannau gorau'r swydd yn eu barn nhw?
   - Beth yw rhannau anoddaf y swydd yn eu barn nhw?
   - Beth yw canfyddiadau'r cyhoedd am y swydd?
6. Unwaith y bydd y swyddi wedi'u hamlinellu, trafodwch gyda'ch dysgwyr pa rai o'r rolau maen nhw'n meddwl fyddai fwyaf diddorol. Fyddai ganddyn nhw ddiddordeb mewn unrhyw un/rai o'r swyddi hyn ar ôl iddyn nhw ddechrau yn y byd gwaith?
7. Rhowch y **Cardiau adnoddau – Scenario – Taclo'r taniwr** i'ch dysgwyr a rhowch amser iddyn nhw ei ddarllen yn ofalus. Fel arall, gallwch roi'r iddyn nhw'r dasg o ysgrifennu eu senario eu hunain am daniwr tanau gwyllt - darn byr, ysgrifenedig o waith creadigol, sy'n amlinellu digwyddiad llawn dychymyg yn ymwneud â thanau gwyllt. Bydd angen i'r senario gynnwys ffeithiau cryno'r digwyddiad dychmygol. Dylen nhw ysgrifennu dim mwy nag un ochr A4.
8. Eglurwch wrth eich dysgwyr y byddan nhw'n gweithio mewn grwpiau er mwyn creu apêl newyddion fydd yn seiliedig ar eu senario taniwr tanau gwyllt. Bydd angen iddyn nhw ddefnyddio technegau cyfathrebu perswadiol er mwyn annog y troseddwr, unrhyw un sy'n adnabod y troseddwr, neu unrhyw un sy'n gwybod unrhyw beth am sut y dechreuodd y tân gwyllt, i ddod ymlaen i adrodd beth maen nhw'n ei wybod er mwyn helpu dal y taniwr.
   Gallai'r apêl fod ar ffurf:
   - Apêl wedi'i ffilmio.
   - Apêl sain ar gyfer radio lleol.
   - Animeiddiad stop-symud (gweler ein **Cynllun gweithgaredd – Animeiddio natur drwy animeiddio stop-symud**).
   - Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol (gweler ein **Cynllun gweithgaredd – Ymgyrchu dros natur: Rhedeg ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol**).
   - Flog Amgylcheddol (gweler ein **Cynllun gweithgaredd - Creu flog amgylcheddol: a fyddai eich dysgwyr yn hoffi bod yn ddylanwadwyr natur?**).
   - Stori newyddion ysgrifenedig.
9. Eglurwch y bydd angen i bob grŵp gydweithio i drefnu ac ysgrifennu eu hapêl. Bydd angen iddyn nhw:
   - Feddwl am y rolau sydd eu hangen oddi mewn i'r grŵp a phenderfynu pwy sy'n gyfrifol am beth. Efallai y byddan nhw eisiau pennu rolau neu eu cyfnewid er mwyn gweld pwy sydd orau am berfformio, ffilmio, golygu, ysgrifennu, ac ati. Os yw'r apêl yn cael ei ffilmio neu ei recordio – a fyddan nhw'n chwarae rôl o flaen y camera neu y tu ôl i'r llenni?
   - Ystyried y persbectif y maen nhw am ei fabwysiadu. Pa rôl maen nhw'n ei chynrychioli? Er enghraifft, gallen nhw ymgymryd ag un o'r rolau sy'n cael eu rhestru yn y **Cardiau adnoddau – Pwy yw pwy** e.e. heddwas yn apelio am wybodaeth, neu riant lleol, cerddwr cŵn, neu berchennog busnes sy'n gofidio am yr effaith y mae'r tân gwyllt wedi'i chael ar eu bywydau.
   - Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried beth sy'n gwneud apêl dda? Sut y gallan nhw sicrhau bod eu hapêl mor rymus â phosibl? Er enghraifft, i helpu perswadio rhywun i ddod ymlaen i gyflwyno gwybodaeth.
   - Cynllunio a pharatoi sgript a rhestr o gwestiynau i gynorthwyo cynnwys eu creadigaeth.
   - Bydd angen i'r 'apeliwr' ystyried persbectif y sawl y mae'n ceisio cyfathrebu gydag ef/hi.

Er enghraifft, ydyn nhw'n apelio at y troseddwr, rhywun a allai fod yn ei adnabod/hadnabod neu unrhyw un a allai fod wedi dod ar draws darn hanfodol o dystiolaeth?

- Pa bwyntiau maen nhw'n teimlo bod angen iddyn nhw eu cyflwyno er mwyn cyfleu eu neges?
- Eglurwch a chrynhowch y 'digwyddiad' ac eglurwch yr effeithiau mae'r digwyddiad wedi ei gael ar ei swydd.

10. Rhowch i bob grŵp yr offer sydd ei angen er mwyn creu eu hapêl gan gynnwys y **Cardiau adnoddau – Scenario – Taclo'r taniwr** a'r Nodyn Gwybodaeth – Ymchwilio i achosion tanau gwyllt, i'w helpu i osod y llwyfan.
11. Caniatewch ddigon o amser i bob grŵp ddatblygu eu syniadau, ymarfer a chreu apêl orffenedig i'w rhannu â'r grŵp ehangach.
12. Gofynnwch i bob grŵp werthuso eu perfformiad yn y dasg hon. Oes unrhyw beth y bydden nhw'n ei wneud yn wahanol pe baen nhw'n cael y cyfle?
13. Cymharwch a chyferbynnwch apêl orffenedig pob grŵp. Ydyn nhw wedi dangos emosiwn? Oedden nhw'n gredadwy? Ydyn nhw wedi egluro eu rhesymu'n dda? Ydyn nhw'n meddwl y byddai apêl pob grŵp yn perswadio naill ai'r troseddwr, aelod o'r teulu neu aelod o'r cyhoedd i ddod ymlaen? Os felly, pa elfennau o'r apêl oedd fwyaf grymus? Os na, ar beth y gallai'r grŵp wella?
14. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddychmygu bod eu rôl hanfodol yn y dasg o lunio apêl berswadiol wedi arwain yn uniongyrchol at ddal rhywun sydd dan amheuaeth. Sut maen nhw'n teimlo am eu rôl yn hyn o beth? Beth, ym marn eich dysgwyr, y gallai'r sawl sydd dan amheuaeth fod yn ei deimlo, ar ôl cael ei arestio? Sut deimladau allai fod gan ei deulu/theulu? Sut bydd y gymuned leol a phawb sydd wedi'u heffeithio gan y tân gwyllt yn teimlo nawr bod rhywun wedi'i ddal? Beth allai ddigwydd nesaf i'r sawl sydd dan amheuaeth? Os yw'n cael ei ddyfarnu'n euog, beth fyddai'n gosb addas?
15. Ymestynnwch y gweithgaredd trwy wahodd eich dysgwyr i chwarae rôl - cynnal achos llys ffug er mwyn gweithio allan beth allai ddigwydd nesaf.

## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Pwy allai gael eu heffeithio gan dân gwyllt a ddechreuwyd yn fwriadol?
- Pa rolau sydd ynghlwm wrth atal, rheoli ac ymchwilio i danau gwyllt?
- Pam bod rhai pobl yn cynnau tanau'n fwriadol? Mae hwn i'w weld yn ein **Nodyn gwybodaeth - Ymchwilio i achosion tanau gwyllt**
- Beth yw canlyniadau cynnau tanau gwyllt yn fwriadol?
- Pam fod safbwyntiau pobl eraill yn bwysig?
- Sut y gellir perswadio eraill i helpu, ymddwyn neu newid eu ffordd o feddwl?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gymorth

- Darparu cefnogaeth ychwanegol i bob grŵp.
- Cwblhau fel grŵp cyfan.
- Gadael allan yr elfen apêl cyfryngau allan.

### Mwy o sialens

- Gofynnwch i'ch dysgwyr benderfynu ar y fformat, dyfeisiau a'r apiau gorau i'w defnyddio i greu'r apêl.
- Gofynnwch i'ch dysgwyr greu poster neu daflen ar y thema 'ymwybyddiaeth o beryglon tanau gwyllt'.

## Gweithgaredd dilynol/tasg estynedig

Beth am roi cynnig ar ein:

- Cynllun gweithgaredd – Tanio’r dychymyg
- Cynllun gweithgaredd – Cynllun cilio rhag tanau gwyllt
- Ymchwilio i fforensig ymchwiliol tanau gwyllt.

**Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?**

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government